

- **Beth yw Côr Siambr Prifysgol Bangor?**

Côr cymysg o tua 24 o leisiau yw Côr Siambr Prifysgol Bangor; mae'r côr yn canolbwyntio ar berfformio cerddoriaeth gorawl a *cappella* gan fwyaf, dan arweiniad Mr Stephen Rees (Semester 1) a Dr Guto Pryderi Puw (Semester 2).

- **Beth mae'r côr yn ei ganu?**

Mae'r Côr yn perfformio repertoire heriol ac amrywiol, sydd wedi cynnwys pob dim o fotetau poliffonig o'r 16eg ganrif i gerddoriaeth newydd sbon. Mae'r côr yn perfformio sawl gwaith bob semester ym Mangor a thu hwnt. Yn Semester 1, byddwn yn ymuno â Chorws Symffoni Prifysgol Bangor a Cherddorfa'r Brifysgol ar gyfer *Fantasi Corawl* Beethoven (2 Rhagfyr), ac yn perfformio mewn dau gyngerdd arall (dyddiadau i'w cadarnhau).

- **Sut dwi'n ymaelodi?**

Trwy glyweliad y ceir mynediad i'r Côr Siambr, a dylai ymgeiswyr feddu ar sgiliau darllen ar yr olwg gyntaf o safon dda. Gofynnir i chi baratoi cân i'w chanu (gall fod yn unrhywbeth o *Lieder* i gân werin ddigyfeiliant), ynghyd â chanu adran fer ar yr olwg gyntaf yn ystod y clyweliad. Darperir cyfeilydd.

- **Pwy sy'n gallu ymaelodi?**

Cyfyngir aelodaeth o'r côr i fyfyrwyr Prifysgol Bangor. Mae'r Brifysgol yn trefnu dau gôr arall: un ar gyfer staff a myfyrwyr (Corws Symffoni Prifysgol Bangor), ac un ar gyfer cantorion o'r gymuned leol (Côr ar y Bryn); mae'r tri chôr yn ymarfer ar yr un noson.

- **Ar ba noson y mae'r ymarferion?**

Cynhelir ymarferion Côr Siambr y Brifysgol **Nos Fercher rhwng 7.30pm a 9.30pm**, fel arfer yn yr Adeilad Cerddoriaeth. Ceir ambell ymarfer ychwanegol ar ddyddiadau eraill cyn y cyngherddau. **Disgwylir presenoldeb llawn ym mhob ymarfer.**

- **Pryd da ni'n dechrau?**

Byddwn yn cyfarfod am y tro cyntaf **Nos Fercher yr Wythnos Groeso (19 Medi)**, gydag ymarfer agored ar y cyd â Chorws Symffoni Prifysgol Bangor a Chôr y Gymdeithas Gerdd, **gyda pharti caws a gwin – yn rhad ac am ddim** – i ddilyn. Dewch i ganu gyda ni am 7.30 yn Neuadd Prichard-Jones!

- **Clyweliadau**

Cynhelir clyweliadau yn yr Adeilad Cerddoriaeth ar Ddydd Sadwrn 22 Medi. Os dymunwch gael clyweliad, cwblhewch y ffurflen drosodd a'i ddychwelyd i'r Ysgol Cerddoriaeth a'r Cyfryngau naill ai

- a) yn uniongyrchol i Stephen Rees yn yr ymarfer agored ar noson y **19 Medi**; neu
- b) i'r Ysgol Cerddoriaeth a'r Cyfryngau **erbyn 5.00pm, Ddydd Iau 20 Medi.**

Hysbysir amseroedd clyweliadau drwy ebost.

O.N. Rhaid i gyn-aelodau Côr Siambr y Brifysgol hefyd lenwi'r ffurflen drosodd a dod am glyweliad.

DEFNYDDIO EICH DATA

- Bydd y data a gesglir ar y ffurflen aelodaeth yn cael ei storio'n ddiogel, mewn copi caled yn unig, yn yr Ysgol Cerddoriaeth a'r Cyfryngau, Prifysgol Bangor, Bangor, LL57 2DG.
- Pan ymunwch â'r côr, bydd eich cyfeiriad e-bost yn cael ei ychwanegu at restr bostio electronig, a byddwch yn derbyn gohebiaeth am y côr (amserlenni ymarfer, dyrannu rhannau, cyfleoedd i gael perfformiadau ychwanegol, ac ati). Bydd negeseuon e-bost yn cael eu hanfon mewn ffordd fel nad yw cyfeiriadau e-bost aelodau yn weladwy i dderbynwyr eraill. Ni fydd y rhestr e-bost yn cael ei defnyddio at unrhyw ddiben arall.
- Os ydych chi'n fyfyrwr ym Mhrifysgol Bangor, efallai y byddwn yn cysylltu â chi gan ddefnyddio eich cyfeiriad e-bost prifysgol, yn ogystal ag unrhyw gyfeiriad e-bost preifat a gofnodwyd ar y ffurflen aelodaeth.
- Efallai y byddwn hefyd yn cysylltu â chi'n unigol ynglŷn â materion sy'n gysylltiedig â'ch aelodaeth neu'ch cyfranogiad yn y côr. Bydd yr ohebiaeth hon trwy e-bost yn y lle cyntaf. Ni fyddwn yn cysylltu â chi dros y ffôn neu drwy'r post, dim ond os byddwn wedi methu cysylltu â chi trwy e-bost.
- Caiff y ffurflen aelodaeth ei dinistrio ar 30 Medi 2020 neu cyn hynny.
- Ni chaiff y manylion ar y ffurflen aelodaeth eu rhannu gydag unrhyw ran arall o'r Brifysgol, na gydag unrhyw drydydd parti.
- Os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â defnyddio'r data hwn, cysylltwch â'r Athro Chris Collins trwy un o'r dulliau canlynol:
Post: Ysgol Cerddoriaeth a'r Cyfryngau, Prifysgol Bangor, Bangor, LL57 2DG
E-bost: c.collins@bangor.ac.uk
Ffôn: 01248 382181

Ffurflen aelodaeth

Dychweler at: Côr Siambr y Brifysgol, Ysgol Cerddoriaeth a'r Cyfryngau, Prifysgol Bangor, Bangor, Gwynedd, LL57 2DG **neu** ddewch â'r ffurflen hon i'r ymarfer cyntaf ar Nos Fercher 19 Medi 2018.

Enw:

Cyfeiriad ebost:

Cwrs:

Cyfeiriad lleol:

.....

Cyfeiriad cartref:

.....

Rhif ffôn:

Rhif ffôn cartref:

Profiad corawl:

.....

.....

Math o lais:

Soprano

Alto

Tenor

Bas

Ddim yn siŵr

PWYSIG: Cytunaf i ddychwelyd y sgorau a fenthycwyd imi yn syth ar ôl pob cyngerdd. Os nad wyf wedi eu dychwelyd o fewn 7 diwrnod ar ôl y cyngerdd, cytunaf i dalu cost eu hamnewid.

Llofnodwyd: